## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 06 Tachwedd 2002

## Cynigion a gyflwynwyd ar 30 Hydref 2002

**Y Ddadl Fer**

**NDM1199 Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Ynni Niwclear - Ein Hunig Ddewis yn y Dyfodol?

**NDM1200 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

2. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Ffioedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002;

3. Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru 15 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

4. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2002;

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

**NDM1201 Edwina Hart (Gwyr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.3, yn mabwysiadu'r

gyllideb derfynol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2003-2004, 2004-2005 a 2005-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth, 29 Hydref gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid.

## Cynnig a Gyflwynwyd ar 11 Gorffennaf 2002

**NDM1167 Geraint Davies (Rhondda);**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth ddrafft o dan Adran 87(1)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i wneud darpariaeth ar gyfer mesur a nodweddu'r gollyngiadau o nwyon tirlenwi sy'n digwydd mewn cymunedau gerllaw safleoedd tirlenwi.

2. Yn nodi y gellir, trwy hyn, asesu'r effeithiau o fod mewn cysylltiad hirdymor â gollyngiadau o safleoedd tirlenwi.

*Dalier Sylw - Gosodwyd y Dadansoddiad Cost a Budd ar gyfer yr isddeddfwriaeth hon ar 30 Hydref 2002 a gellir dod o hyd iddo ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd (Saesneg yn unig)*

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 30 Hydref 2002

**NDM1167**

**Geraint Davies (Rhondda);**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

1. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth ddrafft o dan Adran 87(1)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i wneud darpariaeth ar gyfer mesur a nodweddu'r gollyngiadau o nwyon tirlenwi, gan gynnwys gollyngiadau o ffagliadau tirlenwi sy'n digwydd mewn cymunedau gerllaw safleoedd tirlenwi.

2. Yn nodi y bydd hyn yn rhan o astudiaeth iechyd y cyhoedd i asesu effeithiau bod mewn cysylltiad hirdymor â gollyngiadau o safleoedd tirlenwi.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 31 Hydref 2002

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1167**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu popeth ar ôl ‘tirlenwi’

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ym mhwynt 2 rhoi’r canlynol ar ôl ‘safleoedd’:

‘yn arwain at welliant yn y safonau ansawdd aer.’